# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Chwefror 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 122(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru): Pa sicrwydd wnaiff y Gweinidog ei ddarparu na fydd symud i ffwrdd o gyllido'r cynllun brys ar gyfer bysiau yn arwain at gau llwybrau bysiau ac yn golygu bod gwasanaethau bysiau gwledig yn anhyfyw?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Lwfans Cynhaliaeth Addysg

(60 munud)

**NDM8187** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg, yn wahanol i Lywodraeth y DU yn Lloegr;

b) nad yw gwerth y lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru wedi newid ers 2004, ac nad yw'r trothwyon cymhwysedd wedi newid ers 2011;

c) er bod y lwfans cynhaliaeth addysg yn fath pwysig o gymorth ariannol i ddysgwyr ôl-16, nid yw wedi cadw i fyny â phwysau costau byw.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried codiad sy'n gysylltiedig â chwyddiant i werth y lwfans cynhaliaeth addysg ac adolygiad o'r trothwyon.

**Cyd-gyflwynwyr**

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Yr ymosodiad ar Wcráin a chefnogi ffoaduriaid o Wcráin

(60 munud)

**NDM8204** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod y mis hwn yn nodi blwyddyn ers ymosodiad anghyfreithlon Vladimir Putin ar Wcráin.

2. Yn condemnio'r ymosodiad ar Wcráin, a'r ymddygiad ymosodol parhaus yn ei herbyn, yn erbyn ei sofraniaeth ac yn erbyn ei chyfanrwydd tiriogaethol gan Ffederasiwn Rwsia.

3. Yn cymeradwyo gwytnwch pobl Wcráin yn wyneb creulondeb Rwsia.

4. Yn croesawu'r cymorth milwrol, ariannol a dyngarol a ddarperir i Wcráin gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

5. Yn diolch i bobl Cymru am eu hymateb i'r gwrthdaro, gan gynnwys eu haelioni a'r croeso a roddwyd i ffoaduriaid o Wcráin.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun tymor hir i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Hyfforddiant sefydlu ar gyfer plant â nam ar eu golwg

(60 munud)

**NDM8205** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi ymchwil gan Cŵn Tywys Cymru sy'n awgrymu y byddai 2,000 o blant â nam ar eu golwg yn elwa o hyfforddiant sefydlu.

2. Yn nodi ymhellach bod hyfforddiant sefydlu yn hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau byw'n annibynnol, symudedd personol a llywio ar gyfer plant â nam ar eu golwg.

3. Yn siomedig nad yw nifer o awdurdodau lleol Cymru yn cynnig hyfforddiant sefydlu, er gwaethaf eu dyletswydd i roi sylw dyledus i Erthygl 26 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) darparu cynllun gweithlu ar frys ar wasanaethau sefydlu; a

b) sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflogi o leiaf un arbenigwr sefydlu i bob 100 o blant â nam ar eu golwg.

Erthygl 26 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

3. Yn galw ar holl awdurdodau lleol Cymru i gynnig hyfforddiant sefydlu, yn unol â'u dyletswydd i roi sylw dyledus i Erthygl 26 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i drafod â rhanddeiliaid perthnasol i helpu i ddatblygu cynllun gwella ar gyfer gwasanaethau sefydlu i blant â nam ar eu golwg, gan gynnwys ystyried eu hanghenion o ran hyfforddiant a sut i'w diwallu.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8191** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Strwythur gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru: ydyn ni wedi'i gael yn iawn?

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8203** Sian Gwenllian (Arfon)

Gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn y gogledd: cyflwyno'r ddadl dros wella gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a'r darpariaeth ohonynt gan gynnwys ar gyfer teuluoedd Cymraeg eu hiaith

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2023

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 08/02/2023 i'w hateb ar 15/02/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ59146 **(e)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith posib o gynyddu'r gyfradd sylfaenol o dreth incwm yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

2 OQ59129 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynglŷn â chymorth Llywodraeth Cymru i leihau'r pwysau ariannol ar wasanaethau bysiau rheolaidd?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

3 OQ59135 **(e)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn ag effaith cyllideb ddrafft y Llywodraeth ar ddyfodol parciau cenedlaethol?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

4 OQ59143 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi dyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus yn Islwyn?

**Peter Fox** *Mynwy*

5 OQ59139 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi ac ariannu parhad cydwasanaethau?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

6 OQ59141 **(e)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023–24 ar awdurdodau lleol?

7 **Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OQ59132 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb Cyngor Sir Ynys Môn?

8 **Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

OQ59131 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi ynghylch cyllid i awdurdodau lleol i hyrwyddo cyfleoedd prentisiaethau i ddysgwyr ifanc?

9 **James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ59121 **(e)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer y personél o fewn awdurdodau lleol sy'n cael eu talu o dan reolau gwaith oddi ar y gyflogres IR35?

10 **Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ59126 **(e)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael cyfran deg o wariant Llywodraeth Cymru?

11 **Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

OQ59134 **(e)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch sicrhau bod digon o arian ar gael i awdurdodau lleol er mwyn lliniaru effeithiau tywydd garw?

12 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ59112 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth yw blaenoriaethau gwariant y Gweinidog ar gyfer Preseli Sir Benfro yn ystod y 12 mis nesaf?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

1 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ59118 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau ledled Canol De Cymru i gael mynediad at ofodau gwyrdd cymunedol?

2

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ59133 **(e)**

Sut fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygu gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wrth i gyllid yr UE ddod i ben?

3

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ59144 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i ddenu pobl ifanc i yrfaoedd ym myd ffermio ac amaeth?

4

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

OQ59130 **(e)**

Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant wyau yn Nwyrain De Cymru?

5

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ59136 **(e)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn ag effaith Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar y rhaglen weithredu genedlaethol ar fawndiroedd?

6

**Buffy Williams** *Rhondda*

OQ59111 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa effaith y mae costau byw cynyddol wedi'i chael ar les anifeiliaid?

7

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ59110 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa ystyriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i wahardd rasio milgwn?

8

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ59114 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella rheolaeth cŵn?

9

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ59120 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn hybu datblygu gwledig yng Ngogledd Cymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

10 OQ59124 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â gwariant y gronfa datblygu gwledig yng Nghanol De Cymru?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

11 OQ59138 **(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol am y camau y gallant eu cymryd i wella lles anifeiliaid?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

12 OQ59128 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella mynediad at fannau gwyrdd cymunedol trefol ledled Cymru?